Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

# Adroddiad ar y Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru)

Rhagfyr 2019



www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: **www.cynulliad.cymru/SeneddMCD**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddMCD@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddMCD**



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

# Adroddiad ar y Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru)

Rhagfyr 2019

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 15 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Mick Antoniw AC**
Llafur Cymru

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Suzy Davies AC**
Ceidwadwyr Cymreig



**Carwyn Jones AC**
Llafur Cymru



**Dai Lloyd AC**
Plaid Cymru

# Cynnwys


1. **Cyflwyniad** ..... **5**
    - Y Cefndir ..... 5
    - Cyflwyno'r Bil ..... 5
    - Cylch gwaith y Pwyllgor ..... 6
2. **Cymhwysedd Deddfwriaethol** ..... **8**
    - Cyffredinol ..... 8
    - Hawliau dynol ..... 9
    - Ein barn ni ..... 10
3. **Sylwadau cyffredinol** ..... **11**
    - Yr angen am ddeddfwriaeth ..... 11
    - Y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd wedi'i gynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth ..... 12
    - Dod i rym ..... 14
    - Ein barn ni ..... 14

# 1. Cyflwyniad

Yn Hydref 2018, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithio (Cymru) a oedd, bryd hynny, ar ei ffurf ddrafft.

## Y Cefndir

**1.** Roedd 97 y cant o'r rhai a ymatebodd i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru wedi cefnogi ei chynnig i gyflwyno deddfwriaeth a fyddai'n ei gwneud yn drosedd i anifail gwyllt gael ei ddefnyddio mewn syrcas deithiol.[1]

**2.** Mae deisebau sy'n galw am waharddiad wedi cael eu hystyried ddwywaith gan Bwyllgor Deisebau'r Cynulliad Cenedlaethol, gydag un yn cael ei thrafod yn y Cyfarfod Llawn.[2]

**3.** Mae deddfwriaeth debyg wedi cael ei phasio gan Senedd y DU ar gyfer Lloegr, a chan Senedd yr Alban. Yn yr Alban, cafodd Deddf Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Yr Alban) 2018 Gydsyniad Brenhinol ar 24 Ionawr 2018. Ar gyfer Lloegr, cafodd Deddf Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau 2019 Gydsyniad Brenhinol ar 24 Gorffennaf 2019.

## Cyflwyno'r Bil

**4.** Ar 8 Gorffennaf 2019, cyflwynodd Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig (y Gweinidog), y Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru)[3] (y Bil) a'r Memorandwm Esboniadol[4] (y Memorandwm).

---

[1] Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Cymru)

[2] P-04-653 Gwahardd y Defnydd o Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau yng Nghymru, a P-05-796 Galw ar Lywodraeth Cymru i wahardd yr arfer o ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau yng Nghymru

[3] Ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol.

[4] Llywodraeth Cymru: Memorandwm Esboniadol y Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru), Gorffennaf 2019

**5.** Cyfeiriwyd y Bil gan Bwyllgor Busnes y Cynulliad Cenedlaethol at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig, a phenderfynwyd y byddai adroddiad ar ei egwyddorion cyffredinol yn cael ei gyflwyno ar 6 Rhagfyr 2019.[5]

**6.** Mae'r Memorandwm sy'n cyd-fynd â'r Bil yn nodi mai amcan polisi'r Bil "yw gwahardd y defnydd o anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yng Nghymru".[6]

**7.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan fel a ganlyn:

> "Dim ond dwy syrcas sydd bellach yn teithio gydag anifeiliaid gwyllt; Circus Mondao a Syrcas Peter Jolly. Mae'r ddwy â'u pencadlysoedd yn Lloegr ond yn ymweld â Chymru'n rheolaidd; ymwelodd y ddwy syrcas â Chymru yn 2018, ac mae Circus Mondao yn teithio Cymru eleni (2019)."[7]

**8.** Ar 8 Gorffennaf 2019, cyhoeddodd y Gweinidog Ddatganiad o Fwriad y Polisi i gyd-fynd â'r Bil.[8]

## Cylch gwaith y Pwyllgor

**9.** Cylch gwaith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (y Pwyllgor) yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 21 (ac eithrio Rheol Sefydlog 21.8), ac ystyried unrhyw fater cyfansoddiadol, deddfwriaethol neu lywodraethol arall sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, neu sy'n gysylltiedig â chymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, gan gynnwys ansawdd deddfwriaeth.

**10.** Yn ein gwaith o graffu ar Filiau a gyflwynir yn y Cynulliad Cenedlaethol, ein dull yw ystyried:

- materion sy'n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys bod yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR);

[5] Y Pwyllgor Busnes, Adroddiad ar yr amserlen ar gyfer trafod y Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru), Gorffennaf 2019

[6] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.1

[7] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.3

[8] Llywodraeth Cymru: Bil Anifeiliaid a Syrcasau Gwyllt (Cymru) – Datganiad o Fwriad Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth, Gorffennaf 2019

- y cydbwysedd rhwng y wybodaeth sydd wedi ei chynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn sydd mewn is-ddeddfwriaeth;
- a yw'r weithdrefn ddeddfwriaethol briodol wedi cael ei dewis, mewn perthynas â rhoi pwerau i Weinidogion Cymru, i wneud is-ddeddfwriaeth; ac
- unrhyw fater arall yr ydym o'r farn ei fod yn berthnasol i ansawdd deddfwriaeth.

**11.** Cawsom dystiolaeth gan y Gweinidog yn ein cyfarfod ar 21 Hydref 2019.[9]

[9] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 21 Hydref 2019

# 2. Cymhwysedd Deddfwriaethol

## Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

### Cyffredinol

**12.** Ystyriodd y Pwyllgor y Bil hwn o dan y model cymhwysedd deddfwriaethol sy'n seiliedig ar gadw pwerau, fel y'i nodir yn adran 108A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006).

**13.** Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

> "Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad') y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau yn y Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) ('y Bil') yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ('Deddf 2006') fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017."[10]

**14.** Yn ei datganiad hithau ar gymhwysedd deddfwriaethol,[11] dywedodd y Llywydd, Elin Jones AC, y byddai'r rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Bil, yn ei barn hi, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, ac eithrio adran 10. Dywedodd y Llywydd:

> "Mae adran 10 y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad i'r graddau y mae'n gofyn am gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol i fod o fewn cymhwysedd."

**15.** Mae adran 10 o'r Bil yn ymwneud â phwerau mynediad i dir y Goron. Mae'n darparu fel a ganlyn:

> "Ni chaniateir arfer y pwerau a roddir gan yr Atodlen (pwerau mynediad etc.) mewn perthynas â thir y Goron ond gyda chydsyniad yr awdurdod priodol."

[10] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 1.1 Hefyd, gweler y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 21 Hydref 2019, Cofnod y Trafodion, [40]

[11] Datganiad y Llywydd am Gymhwysedd Deddfwriaethol y Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru), 8 Gorffennaf 2019

**16.** Ar 12 Awst 2019 ysgrifennodd y Gweinidog at y Llywydd i gadarnhau bod Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi rhoi ei gydsyniad ar gyfer y ddarpariaeth o dan adran 10 o'r Bil.[12]

## Hawliau dynol

**17.** I fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, mae adran 108A(2)(e) o Ddeddf 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i bob darpariaeth mewn Bil gydymffurfio â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR).

**18.** Gofynnwyd i'r Gweinidog i ba raddau yr oedd wedi ystyried hawliau dynol wrth baratoi'r Bil. Ateb y Gweinidog oedd:

> "(…) we're satisfied that the provisions in the Bill comply with the Human Rights Act 1998. Obviously, the Bill focuses on ethical concerns surrounding the use of wild animals in travelling circuses, so, beyond the impact on the two travelling circuses, I think the real benefit will be measured in terms of addressing those ethical concerns that have been raised with me many, many times by the Welsh public and third sector organisations."[13]

**19.** Mae'r asesiad o effaith y Bil ar gydraddoldeb yn nodi nad yw'r Bil yn cael unrhyw effaith ar faterion hil. Mae'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn nodi bod hil yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid. Gofynnwyd i'r Gweinidog pam nad yw'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn cyfeirio at unrhyw oblygiadau cadarnhaol neu negyddol o ran hil. Ateb y Gweinidog oedd:

> "You're quite right that that's what our view is; that's what the impact assessment on completion agreed to. We commissioned a huge range of research around this. I know we looked at briefings and journals, general articles, and none of them identified any impacts in this area. Travelling circuses are commercial operations, and they exist to provide entertainment, so banning the use of wild animals in travelling circuses would be expected to impact equally on all affected people. It will not be specific to any one protected characteristic."[14]

---

[12] Llythyr gan y Gweinidog at y Llywydd, 12 Awst 2019

[13] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 21 Hydref 2019, Cofnod y Trafodion, [52]

[14] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 21 Hydref 2019, Cofnod y Trafodion, [54]

**20.** O ran y pwerau gorfodi, mae'r Bil yn rhoi pwerau i arolygwyr fynd i mewn i fangre a gysylltir yn gyffredin â syrcasau teithio. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan fel a ganlyn:

> "Mae'r Bil wedi'i ddrafftio gan roi sylw dyledus i hawliau dynol ac mae'r Atodlen yn nodi'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gellir rhoi gwarant a chyfyngiadau gwarant."[15]

## Ein barn ni

**21.** Rydym yn nodi'r dystiolaeth gan y Gweinidog a'r wybodaeth a geir yn y Memorandwm Esboniadol.

**22.** Nodwn hefyd fod Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi rhoi ei gydsyniad ar gyfer y ddarpariaeth yn adran 10 o'r Bil.

**23.** Rydym yn achub ar y cyfle i ailadrodd casgliad a wnaed gennym yn ddiweddar yn ein hadroddiad ar Fil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru), a'r Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) – mae'n bwysig bod esboniadau llawn o asesiadau a gynhelir mewn perthynas â hawliau dynol ar gael mewn Memoranda Esboniadol sy'n cyd-fynd â Biliau a osodir gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

[15] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.46

# 3. Sylwadau cyffredinol

## Yr angen am ddeddfwriaeth

**24.** Yn ôl y Memorandwm, amcan polisi'r Bil "yw gwahardd y defnydd o anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yng Nghymru, ar sail foesegol".[16]

**25.** Mae Pennod 7 o'r Memorandwm yn disgrifio'r tri opsiwn a ystyriwyd er mwyn cyflawni'r amcan polisi.

**26.** Gofynnwyd i'r Gweinidog pam fod angen y Bil i gyflawni'r amcan polisi, yn hytrach na defnyddio'r pwerau presennol. Ateb y Gweinidog oedd:

> "The policy objective is to ban the use of wild animals in travelling circuses in Wales. We don't have any circuses based here in Wales, but we do have, at the moment, two circuses that do visit Wales. You may be aware that Scotland has already introduced legislation to ban the use of wild animals in travelling circuses. The UK Government are going through the process now. So, we want a consistent approach across Great Britain. We do not want Wales to become a sanctuary for travelling circuses, with the other two countries having introduced a ban. So, I went out to consultation last year. We had about 6,500 responses and 96 per cent of respondents agreed that we should legislate to ban the use of wild animals in travelling circuses."[17]

**27.** Gofynnwyd i'r Gweinidog pam fod y Bil yn cael ei ddwyn ymlaen ar sail foesegol, yn hytrach nag ar sail lles anifeiliaid? Ei hateb oedd:

> "I do not have the evidence to show that there are welfare issues. Obviously, I can't say 100 per cent with confidence that there aren't, but you have to assume that every circus is heavily regulated, and if they weren't complying with the regulations around animal welfare, we would know about it. There have only been two prosecutions in relation to animal welfare in travelling circuses in the last 20 years. I think the last one was about seven years ago. So, I could not bring forward this

[16] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 7.1

[17] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 21 Hydref 2019, Cofnod y Trafodion, [42]

> Bill on animal welfare grounds and, certainly, Scotland and the UK Government came to the same conclusions with their Bills too."[18]

## Y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd wedi'i gynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth

**28.** Mae crynodeb o'r pwerau dirprwyedig ym Mhennod 5 o'r Memorandwm. Fel y soniwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi darparu Datganiad o Fwriad y Polisi.

**29.** Bydd y pwerau dirprwyedig a ddarperir gan y Bil ar ffurf dau bŵer i lunio rheoliadau, a bydd y ddau ohonynt yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

**30.** Mae adran 3(2) yn darparu pŵer i reoliadau bennu math o anifail sydd i'w ystyried yn anifail gwyllt a math o anifail nad yw i'w ystyried yn anifail gwyllt.

**31.** Mae adran 4 yn diffinio syrcas deithiol. Mae'n darparu mai ystyr "syrcas deithiol" yw syrcas sy'n teithio o un man i fan arall at ddiben darparu adloniant yn y mannau hynny. Mae adran 4(3) yn darparu y caiff rheoliadau bennu mathau o ymgymeriad ac ati sydd i'w hystyried yn syrcas deithiol a'r rhai nad ydynt i'w hystyried yn syrcas deithiol.

**32.** Bydd y rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan adrannau 3(2) a 4(3) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Mae'r Memorandwm yn nodi bod y weithdrefn hon yn briodol oherwydd bydd newid ystyr anifail gwyllt a syrcas deithiol "yn effeithio ar y drosedd"[19].

**33.** Mae'r Memorandwm yn nodi ei bod yn bosibl y gallai fod "ansicrwydd neu safbwyntiau croes" ynghylch pa fath o anifail sydd i'w ystyried yn wyllt, ac a yw math o ymgymeriad, perfformiad neu adloniant i'w ystyried yn syrcas deithiol.[20]

**34.** Gofynnwyd i'r Gweinidog ynghylch cynnwys, yn adrannau 3 a 4, ddau bŵer i lunio rheoliadau a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r diffiniadau o anifeiliaid gwyllt a syrcasau teithiol. Meddai'r Gweinidog wrthym:

> "We think the definitions within the Bill should be sufficient. However, the regulations only really look at the definition of 'wild animals' and

[18] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 21 Hydref 2019, Cofnod y Trafodion, [56] Gweler hefyd y Memorandwm Esboniadol, paragraffau 3.15 i 3.35

[19] Y Memorandwm Esboniadol, Tabl 5.1, tudalen 24

[20] Y Memorandwm Esboniadol, paragraffau 3.41 a 3.42

> 'travelling circuses'. So, if you think about wild animals, it could be that, in future, animals that are considered to be wild at the moment might not be. The only example we've been able to come up with is llamas, which 40 years ago were considered to be exotic and now they're considered to be domesticated."[21]

**35.** Ychwanegodd:

> "(…) the definitions are the same as those that Scotland and England have used. They're also in line with other regulations and legislation - so, in the Zoo Licensing Act 1981, for instance, the definition is the same for wild animals there."[22]

**36.** Dywedodd y swyddog a ddaeth i'r pwyllgor gyda'r Gweinidog:

> "I think the idea is that we're reasonably happy with the definitions we have, which are in keeping with other legislation, but those powers to make regulations are there should we need them in the future, should things change or should clarification be required."[23]

**37.** Mae adran 3(1) o'r Bil yn diffinio anifail gwyllt fel "anifail o fath nad yw wedi ei ddomestigeiddio yn gyffredin yn yr Ynysoedd Prydeinig". Mae adran 2 o Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Yr Alban) 2018 yn nodi fel a ganlyn:

> "(1) In this Act, 'wild animal' means an animal other than one of a kind that is commonly domesticated in the British Islands.
>
> (2) For the purpose of subsection (1), an animal is of a kind that is domesticated if the behaviour, life cycle or physiology of animals of that kind has been altered as a result of the breeding or living conditions of multiple generations of animals of that kind being under human control."[24]

**38.** Ysgrifennodd y Gweinidog atom ar 28 Tachwedd gan ddweud: "Ar ôl i mi ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 21 Hydref teimlaf y byddai'n fuddiol i Aelodau'r Pwyllgor petawn yn sicrhau mwy o eglurder ynghylch rhai o'r materion a godwyd

---

[21] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 21 Hydref 2019, Cofnod y Trafodion, [62]

[22] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 21 Hydref 2019, Cofnod y Trafodion, [64]

[23] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 21 Hydref 2019, Cofnod y Trafodion, [69] Gweler hefyd [73].

[24] Deddf Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Yr Alban) 2018

mewn perthynas â'r pwerau i wneud rheoliadau a gynhwysir ym Mil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru)". Yn ei lythyr, dywed y Gweinidog fel a ganlyn:

> "Er bod y diffiniad o anifail gwyllt yn gymharol debyg o fewn Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru), Deddf Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Yr Alban) 2018, Deddf Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau 2019 a Deddf Trwyddedu Sŵau 1981 mae rhai amrywiadau o safbwynt y drafftio. Nid wyf, fodd bynnag, yn rhagweld y gallai'r amrywiadau hyn arwain at wahaniaeth o safbwynt yr effaith gyffredin ar draws y gwahanol weinyddiaethau."[25]

**39.** O ran cyflwyno rheoliadau yn y dyfodol, dywedodd y Gweinidog hefyd:

> "(…) what we would firstly do is consult with stakeholders and get expert advice. Any regulations would be affirmative procedure, so in-between those we would then consult as appropriate."[26]

## Dod i rym

**40.** Mae adran 12 o'r Bil yn darparu bod y Bil yn dod i rym ar 1 Rhagfyr 2020.

**41.** Yn ei thystiolaeth dywedodd y Gweinidog wrthym:

> "Circuses normally travel between March and November. So, if you look at when we would get Royal Assent, assuming everything goes the way that we would allow for, the date of 1 December was to allow the animals—. If we brought the date forward whilst the animals were touring, it would be much more difficult, I think, for them. But I'm not saying we couldn't bring it forward if that would be the will of the committees and the National Assembly."[27]

## Ein barn ni

**42.** Nodwn y dystiolaeth gan y Gweinidog o ran yr angen am ddeddfwriaeth, a'r seiliau dros gyflwyno'r Bil.

**43.** Dywedodd y Gweinidog wrthym fod y diffiniadau o "anifail gwyllt" a "syrcas deithiol" a ddefnyddir yn y Bil yr un fath â'r rhai a ddefnyddir yn y Deddfau cyfatebol yn yr Alban a Lloegr. Fodd bynnag, nodwn, er enghraifft, ei bod yn

---

[25] Llythyr gan y Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 28 Tachwedd 2019

[26] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 21 Hydref 2019, Cofnod y Trafodion, [66]

[27] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 21 Hydref 2019, Cofnod y Trafodion, [58]

ymddangos bod y diffiniad o “anifail gwyllt” yn Neddf Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Yr Alban) 2018 yn rhoi diffiniad manylach a mwy penodol na’r un a gynhwysir yn y Bil hwn.

**44.** Er ein bod yn cydnabod bod y Gweinidog wedi ysgrifennu atom ar 28 Tachwedd i gynnig rhywfaint o eglurhad, daeth y llythyr i law dros bum wythnos ar ôl i’r Gweinidog roi tystiolaeth inni a dim ond wythnos cyn ein dyddiad cau ar gyfer llunio adroddiad. O’r herwydd, ychydig o gyfle a gawsom i ystyried goblygiadau tystiolaeth ychwanegol y Gweinidog. Nid yw’n glir pam y cymerodd gymaint o amser ar ôl y sesiwn dystiolaeth i ysgrifennu atom. Yn ein barn ni, nid yw hyn yn arfer da a gobeithiwn na fydd yn digwydd eto yn y dyfodol.

**Argymhelliad 1.** Dylai’r Gweinidog, yn ystod y ddadl Cyfnod 1, egluro’r diffiniadau o “anifail gwyllt” a “syrcas deithiol” y darperir ar eu cyfer yn y Bil, ac egluro, lle bo hynny’n berthnasol, sut a pham mae’r diffiniadau hyn yn wahanol i’r rhai a ddefnyddir yn y Deddfau cyfatebol yn yr Alban a Lloegr.

**45.** O ran y cydbwysedd rhwng y manylion ar wyneb y Bil a’r hyn sydd mewn is-ddeddfwriaeth, nodwn fod y Bil yn darparu dau bŵer i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth.

**46.** Rydym yn nodi ac yn fodlon bod y rheoliadau i’w gwneud o dan adrannau 3 a 4 yn ddarostyngedig i’r weithdrefn gadarnhaol.

**47.** Nodwn adran 12 o’r Bil a thystiolaeth y Gweinidog ynghylch y dyddiad dod i rym arfaethedig ar 1 Rhagfyr 2020.